O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2016 Rhif 651 (Cy. 177)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Man i'r Dwyrain o Gylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016

Gwnaed	*13 Mehefin 2016*
Yn dod i rym	*20 Mehefin 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A40) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Mehefin 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Man i'r Dwyrain o Gylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 20 Mehefin 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin sy'n arwain at Sanclêr, i'r dwyrain o Gylchfan Sanclêr yn Sir Gaerfyrddin.